Peidiwch â gadael i ysgariad amharu ar eich cynlluniau ymddeoliad

Dilynwch ein awgrymiadau sydyn ar sut i gynllunio a chynilo ar gyfer eich ymddeoliad. Os ydych wedi bod trwy ysgariad yn ddiweddar neu wedi gorffen partneriaeth sifil ac yn dod i arfer â ffordd o fyw newydd, nid ydych ar ben eich hun. Mae miloedd o berthasau yn chwalu pob blwyddyn yn y DU.

Gall ffeindio eich hun yn sengl ar ôl nifer o flynyddoedd mewn pethynas fod yn brofiad anodd. Gall llawer o bobl deimlo wedi eu llethu gyda'r syniad o drin eu harian. Felly mae meddwl am bensiwn a chyllid ar gyfer eich ymddeoliad yn annhebygol o fod yn flaenoriaeth.

Fodd bynnag, gall y rhan fwyaf ohonom ddisgwyl byw ymhell i mewn i'n wythdegau – sef tua 20 mlynedd tu hwnt i'r oedran Pensiwn y Wladwriaeth bresennol. Felly mae'n bwysig iawn i feddwl am eich ymddeoliad a sut ydych am ei ariannu.

Mae eich Pensiwn y Wladwriaeth yn sylfaen dda. Rydych angen gwybod beth fyddwch yn ei gael ohono a p'un ai os oes angen i chi weithredu i ychwanegu ato os ydych yn darganfod nad oes gennych ddigon. Gallwch hefyd ddewis i weithio yn hirach i gynyddu eich incwm ymddeoliad neu ychwanegu at eich Pensiwn y Wladwriaeth gyda phensiwn preifat eich hun.

Y newyddion da yw mae yna gamau syml y gallwch eu cymryd nawr a fydd yn cynyddu beth fyddwch yn ei gael nes ymlaen:

CAM UN: Darganfyddwch eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth

Gallwch wneud cais am y Pensiwn y Wladwriaeth pan rydych yn cyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth, sy'n dibynnu ar pryd y ganwyd chi. Mae oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched nawr yn cynyddu yn raddol o 60 oed i 65 oed, i fod yn gyfartal â'r oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ddynion.

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi cynigion newydd ar gyfer cynyddu oedran Pensiwn y Wladwriaeth. O dan y cynigion newydd, bydd oedran Pensiwn i ddynion a merched yn dechrau cynyddu o Ragfyr 2018 i gyrraedd 66 erbyn Ebrill 2020. Bydd hyn yn golygu fod oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched yn cynyddu'n fwy cyflym i 65 rhwng Ebrill 2016 a Tachwedd 2018.

Nid yw'r newidiadau a gynigwyd i'r amserlen yn gyfraith eto ac maent dal angen cymeradwyaeth y Senedd.

Mae'n bwysig eich bod yn deall pryd fyddwch yn gallu cael eich Pensiwn y Wladwriaeth fel y gallwch gynllunio ymlaen. Mae'n hawdd darganfod eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth presennol drwy ddefnyddio'r wybodaeth ar ein gwefan. I ddarganfod eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth presennol nawr, ewch i www.direct.gov.uk/pensiwnywladwriaeth

CAM DAU: Darganfyddwch faint o Bensiwn y Wladwriaeth rydych wedi ei adeiladu hyd yn hyn

Os ydych yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebril 2010 bydd angen i chi adeiladu 30 o flynyddoedd cymhwyso o Yswiriant Gwladol i gael y swm llawn o Bensiwn y Wladwriaeth sylfaenol. Os ydych wedi treulio peth amser allan o'r gweithle yn gofalu am eich teulu, efallai fod y llywodraeth wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar eich rhan, felly efallai fod gennych mwy na rydych yn ei feddwl – mae'n werth ei wirio. Gall yr amlinellydd Pensiwn y Wladwriaeth eich helpu i wneud hyn. Mae'n declyn ar-lein syml sy'n dangos i chi faint o Bensiwn y Wladwriaeth sylfaenol efallai ydych wedi ei adeiladu hyd yn hyn a phryd gallwch wneud cais amdano. Cymerwch olwg arno yn www.direct.gov.uk/dyfodolgwell

Cysylltwch â ni am fod yn bartner:
pensions.planning@dwp.gsi.gov.uk

DWP Adran Gwaith a Phensiynau

Peidiwch â gadael i ysgariad amharu ar eich cynlluniau ymddeoliad (tudalen 2)

CAM TRI: Os nad oes gennych Bensiwn y Wladwriaeth sylfaenol llawn eich hun, darganfyddwch os allwch ei wella drwy eich cyn-briod neu gyn-bartner sifil:

Gallwch wneud hyn os oes gan eich cyn-briod neu gyn-bartner sifil gofnod Yswiriant Gwladol dda, ac nad ydych yn ail-briodi neu ffurfio partneriaeth sifil newydd cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Efallai gallwch ddefnyddio eu cofnod i wella eich Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol.

CAM PEDWAR: Darganfyddwch os gall cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol rhoi Pensiwn y Wladwriaeth mwy i chi

Taliadau yw'r rhain efallai byddwch yn gallu eu gwneud i lenwi bylchau yn eich cofnod ac i adeiladu Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol mwy pan rydych yn gwneud cais amdano. Mae yna derfynau amser i dalu rhain felly gwiriwch sut gall unrhyw gyfyngiadau effeithio arnoch cyn i chi benderfynu os yw'n opsiwn da.

Bydd yr hyn sy'n iawn i chi yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol, felly gwnewch yn siwr fod yr holl wybodaeth rydych ei angen gennych i wneud y penderfyniad cywir.

Gallwch ddarganfod mwy am cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol ar ein gwefan yn www.direct.gov.uk/topupni

CAM PUMP: Meddwl am weithio yn hirach a gohiro eich Pensiwn y Wladwriaeth

Nid oes oedran ymddeol y Wladwriaeth. Gallwch barhau i weithio heibio eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac mae llawer o fanteision i aros mewn gwaith. Er enghraifft, unwaith rydych wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ni fyddwch yn talu Yswiriant Gwladol ar eich enillion. Efallai mae'n gwneud synnwyr ariannol i ohirio gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth os oes gennych incwm arall fel cyflog, oherwydd gallwch gael swm wythnosol uwch nes ymlaen, neu gyfandaliad gyda llog, os ydych yn gohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth am o leiaf blwyddyn.

Mae gohirio gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth yn benderfyniad fydd rhaid i chi ei wneud yn seiliedig ar eich amgylchiadau unigol. Y dyddiau hyn mae llawer o opsiynau i weithwyr hŷn. Gallwch siarad â'ch cyflogwr ynglŷn ag aros ymlaen, newid swyddi, neu weithio'n hyblyg.

I gael gwybod mwy ewch i

http://betterfuture.direct.gov.uk/when-can-i-retire-cy.html

CAM CHWECH: Olrhain unrhyw gynlluniau pensiwn preifat, personol neu waith sydd ar goll

Efallai eich bod wedi talu i mewn i gynlluniau pensiwn am gyfnod byr ac wedi anghofio amdanynt. Gall symiau bychan adio i fyny a gwneud gwahaniaeth mewn ymddeoliad, Mae tua £3 biliwn heb eu hawlio mewn cyfrifon pensiwn. Cewch wybod mwy yn www.direct.gov.uk/olrhainpensiwn

Mae llawer mwy o wybodaeth ar-lein yn www.direct.gov.uk/dyfodolgwell

Cysylltwch â ni am fod yn bartner:
pensions.planning@dwp.gsi.gov.uk

DWP Adran Gwaith a Phensiynau